# Y Pwyllgor Drafft

**Cofnodion BC(3)10-08**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 15 Ebrill 2008

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion Cynulliad yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Siwan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)09-08 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 8 Ebrill 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau arnynt, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)10-08(p1)**

3.1 Cytunodd y pwyllgor na chaiff y cyfnod pleidleisio ei gynnal cyn 5pm ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

3.2 Nododd y pwyllgor y drefn fusnes ar gyfer 15 a 16 Ebrill Mawrth 2008.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)10-08(p2)**

3.3 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)10-08(p3)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau a ganlyn o fusnes heblaw busnes y Llywodraeth:

Dadl ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig Huw Lewis ynghylch Darparu Gwasanaethau Bysiau a Choetsys ar 30 Ebrill 2008.

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Wasanaethau Eirioli ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru ar 7 Mai 2008.

3.5 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Papur ar welliannau i gynigion y gwrthbleidiau - BC(3)10-08(p4)**

3.7 Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod y papur a oedd yn awgrymu sawl opsiwn ar gyfer cwblhau gwelliannau i gynigion y gwrthbleidiau.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drafod y mater hwn unwaith yn rhagor yn ei gyfarfod nesaf ar ôl ymgynghori â grwpiau’r pleidiau.

**4. Pwyllgorau’r Cynulliad**

**Cais gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i gynnal cyfarfodydd yn Abertawe ac ym Merthyr Tudful - BC(3)10-08(p5)**

4.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y pwyllgor wedi derbyn cais gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i gyfarfod yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Merthyr Tudful ddydd Mercher 7 Mai 2008 ac yn y Stadiwm Liberty yn Abertawe ddydd Mercher 21 Mai 2008. Mae’r pwyllgor am gynnal y cyfarfodydd allanol hyn fel rhan o’i ymchwiliad i ganiatâd tybiedig i roi organau yng Nghymru. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i’r ceisiadau hyn.

**Cais gan y Pwyllgor Menter a Dysgu i gynnal cyfarfodydd yng nghanolfan cynadledda Airbus ac yng Ngholeg Merthyr - BC(3)10-08(p6)**

4.2 Dywedodd y Cadeirydd fod y pwyllgor wedi derbyn cais gan y Pwyllgor Menter a Dysgu i gyfarfod yng nghanolfan cynadledda Airbus ym Mrychdyn ddydd Gwener 25 April ac yng Ngholeg Merthyr ddydd Mercher 14 Mai. Dywedodd y Pwyllgor Busnes fod angen egluro rhai materion a bod angen sicrhau bod papur yn cael ei gylchredeg y tu allan i’r pwyllgor cyn cytuno ar hyn. Fe wnaeth y Pwyllgor Busnes ailddatgan ei fod yn credu y dylai’r pwyllgorau geisio’i ganiatâd cyn trefnu unrhyw weithgaredd pwyllgor y tu allan i’r Senedd neu y tu allan i amserlen arferol y pwyllgorau.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**